*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg* **Eitem ar yr agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **22 Hydref 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick – Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill – Medi 2018/19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth i'r aelodau am weithgarwch a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o gymharu ag amcanion gwella.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yng Ngogledd Cymru, mae'r Gwasanaeth wedi mynd at gyfanswm o 3,110 o danau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn hanner cyntaf 2018/19 (Ebrill – Medi).

3 Mae nifer y tanau wedi cynyddu 26%, o 1,136 yn 2017/18 i 1,430 yn 2018/19, er bod 4 yn llai o brif danau yn 2018/19 o gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18.

4 Ers 2014/15, mae nifer y tanau eilaidd wedi mynd i fyny ac i lawr, a gwelwyd y ffigwr isaf yn 2016/17 (460). Yn 2018/19, cynyddodd y ffigwr i 880 o danau, - sef cynnydd o 49% o gymharu ag yn 2017/18.

5 Mae nifer y galwadau am gymorth a oedd yn alwadau diangen yn y diwedd wedi cynyddu 8% i 1,224, o gymharu â 1,129 yn 2017/18.

6 Yn hanner cyntaf 2017/18, roedd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt 33% yn uwch nag yn yr un cyfnod yn 2014/15 oherwydd y cynlluniau treialu a'r prosiectau ar y cyd y dewisodd yr Awdurdod gymryd rhan ynddynt. Gellir priodoli'r gostyngiad o 51% yn nifer y digwyddiadau hyn yr aethpwyd atynt yn 2018/19 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol i ddiwedd y Tîm Cymorth Cymunedol (CAT) a gweithgareddau cyd-ymateb.

7 Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2018/19, fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi ostwng 17% o gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18 (sef 190 i 157).

8 Yn 2018/19, bu 2 farwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru, o gymharu ag 1 yn yr un cyfnod yn 2017/18. Ni chofnodwyd unrhyw anafiadau difrifol ond cofnodwyd bod 8 o bobl wedi cael anafiadau mân, o gymharu â 23 yn 2017/18.

9 Mae nifer y bobl a gafodd gymorth cyntaf yn y fan a'r lle 1 yn fwy o gymharu ag yn 2017/18, ond mae nifer y bobl a gafodd archwiliad rhagofalus, neu a gafodd eu cynghori i weld meddyg rhag ofn, wedi gostwng o 20 yn 2017/18 i 5 yn 2018/19.

**ARGYMHELLIAD**

10 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

11 Yn Atodiad 1, er gwybodaeth i'r aelodau, mae'r adroddiad monitro am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2018.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad o gymharu â'r amcanion gwella a llesiant sydd yn y cynllun cyfunol ar gyfer gwella a llesiant 2018/19. |
| Cyllideb | Mae'n helpu i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion addasol sydd arno gyda'r newidiadau mewn gweithgarwch digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Gallai peidio â bodloni gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch, a monitro, perfformiad effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar galw i gwrdd â'r galw. |

Atodiad 1

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**HANNER BLWYDDYN**
**Ebrill 2018 – Medi 2018**

**Ffigyrau dros dro ydynt, a gallent fod yn agored i fân newidiadau.**

**CYNNWYS**



| | |
|---|---|
| **ADRODD YNGHYLCH GWEITHGARWCH DIGWYDDIADAU** | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU** | |
| Tanau yn ôl categori (prif danau, tanau eilaidd, tanau simnai) | 2 |
| Tanau yn ôl cymhelliad (damweiniol/bwriadol) | 3 |
| Tanau – Glaswelltir, coetir a chnydau yn ôl cymhelliad | 3 |
| Tanau – Glaswelltir, coetir a chnydau yn ôl adeg o'r dydd | 4 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau Diangen yn ôl categori (larymau tân awtomatig, didwyll, maleisus) | 5 |
| | |
| **GALWADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Galwadau Gwasanaeth Arbennig yn ôl categori | 6 |
| Galwadau Gwasanaeth Arbennig – mewn grwpiau (gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, a rhai eraill) | 7 |
| Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd (gan gynnwys rhyddhau a thorri allan) | 7 |
| | |
| **MONITRO O GYMHARU AG AMCAN GWELLA A LLESIANT A** | |
| | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 9 |
| | |
| **GEIRFA** | 10 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Mae'r Gwasanaeth wedi mynd at gyfanswm o 3,110 o danau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yng Ngogledd Cymru yn ystod hanner cyntaf 2018/19. Bu cynnydd o 1% yn y digwyddiadau a fynychwyd yn 2018/19, ond gostyngiad cyffredinol o 7% ers 2014/15.

1.2 Rhwng 2014/15 a 2015/16, cafwyd 24% o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt. Ers hynny, mae nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn y tri chategori wedi codi.

**Siart 1. Nifer y tanau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt, gyda chyfartaledd 3 blynedd**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Galwadau diangen | 1,713 | 1,014 | 1,155 | 1,129 | 1,224 | 1,099 |
| Tân | 1,278 | 1,225 | 1,052 | 1,136 | 1,430 | 1,138 |
| Gwasanaeth Arbennig | 342 | 306 | 428 | 819 | 456 | 518 |
| Cyfanswm | 3,333 | 2,545 | 2,635 | 3,084 | 3,110 | 2,755 |

1.3 Yn dilyn gostyngiad yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt rhwng 2014/15 a 2016/17 cafwyd mymryn o gynnydd yn 2017/18 ac yna chynnydd sylweddol (26% yn fwy) yn 2018/19.

1.4 Mae'r newid i bolisi'r Awdurdod ynglŷn ag ymateb i alwadau diangen gan larymau tân awtomatig (AFA) wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yng nghyfanswm y larymau mwg a fynychir yn flynyddol ers 2015/16. Er bod nifer y galwadau diangen a fynychir yn dal i fod yn is nag o'r blaen, mae'r nifer wedi cynyddu'n raddol, gyda chynnydd o 8% yn 2018/19 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

1.5 Bu cynnydd mawr yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig aethpwyd atynt yn 2017/18, gan adlewyrchu'r cynnydd yn y gweithgarwch oherwydd mwy o waith ar y cyd â phartneriaid megis prosiectau y 'tîm cymorth cymunedol' ac 'ar goll o gartref'. Ni lwyddodd yr Awdurdod i sicrhau cyllid i'r rhaglen y tîm cymorth cymunedol allu parhau, ac ynghyd â'r ffaith fod y cynllun treialu cyd-ymateb wedi dod i ben, arweiniodd hyn at 44% o ostyngiad yn y digwyddiadau gwasanaeth yn 2018/19 o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

## 2.0 Tanau


2.1 O'r 3,110 o adegau pryd aethpwyd allan yn hanner cyntaf 2018/19, roedd 509 at brif danau (16%), 880 at danau eilaidd (28%) a 41 at danau simnai (1%).

2.2 Ers 2014/15, cafwyd gostyngiad graddol yn nifer y prif danau yr aethpwyd atynt, sy'n cyfateb i 10% o ostyngiad yn 2018/19 o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15.

2.3 Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y tanau eilaidd aethpwyd atynt wedi mynd i fyny ac i lawr, a gwelwyd y ffigwr isaf yn 2016/17 (460) a'r ffigwr uchaf yn 2018/19 (880).

2.4 Mae tanau simnai wedi gweld 16% o ostyngiad yn hanner cyntaf 2018/19, o gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2014/15.


**Siart 2. Nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn ôl categori**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tân simdde | 49 | 57 | 41 | 33 | 41 | 44 |
| Prif danau | 566 | 544 | 551 | 513 | 509 | 536 |
| Tanau eilaidd | 663 | 624 | 460 | 590 | 880 | 558 |
| Cyfanswm | 1,278 | 1,225 | 1,052 | 1,136 | 1,430 | 1,138 |


2.5 Bu i nifer y tanau damweiniol gynyddu 36% rhwng 2017/18 a 2018/19 (o 740 i 1,010 o danau). Yn ystod yr un cyfnod, bu i nifer y tanau bwriadol gynyddu 6% (o 396 i 420 o danau).

**Siart 3. Nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn ôl cymhelliad**





2.6 Yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2018/19, mae'r Gwasanaeth wedi mynd at 551 o danau glaswelltir, coetir a chnydau. Roedd hyn bron 98% yn uwch (272) nag yn yr hanner cyntaf yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

**Siart 4. Nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau aethpwyd atynt yn ôl cymhelliad**



2.7 Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r rhan fwyaf o danau glaswelltir, coetir a chnydau aethpwyd atynt wedi digwydd rhwng canol dydd a diwedd min nos. Yn 2018/19, roedd nifer o'r tanau yn rhai hirfaith ac wedi parhau am lawer o ddiwrnodau ac wythnosau.

**Siart 5. Nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau yr aethpwyd atynt yn ôl yr adeg o'r dydd**




## 3. Galwadau Diangen

3.1 O'r 3,110 o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt rhwng Ebrill a Medi yn 2018/19, roedd 39% (1,224) yn alwadau diangen.

3.2 Roedd y gostyngiad o 41% yn nifer y galwadau diangen aethpwyd atynt yn 2015/16, o gymharu â 2014/15, yn bennaf o ganlyniad i bolisi'r Awdurdod ar larymau tân awtomatig, er fod gostyngiadau wedi'u gweld ymhob un o'r tri categori o alwadau diangen.

3.3 Ers hyn mae'r niferoedd wedi codi a gostwng rywfaint, gyda'r cynnydd mwyaf yn 2018/19 yn y categori galwadau diangen didwyll; a gynyddodd bron 18% (89).

**Siart 6. Nifer y galwadau diangen yn ôl categori**





| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm tân awtomatig | 1,031 | 501 | 651 | 602 | 611 | 585 |
| Galwadau diangen - didwyll | 637 | 491 | 483 | 509 | 598 | 494 |
| Galwadau diangen - maleisus | 45 | 22 | 21 | 18 | 15 | 20 |
| Cyfanswm | 1,713 | 1,014 | 1,155 | 1,129 | 1,224 | 1,099 |

## 4.0 Galwadau Gwasanaeth Arbennig

4.1 Roedd y cynnydd mawr yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig aethpwyd atynt yn 2017/18 yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y gwaith ar y cyd â gwasanaethau brys eraill megis Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Heddlu Gogledd Cymru ar brosiectau megis y Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-Ymateb, Ar Goll o Gartref, a Dull Mynediad.

4.2 Digwyddiadau'r Tîm Cymorth Cymunedol oedd mymryn dros hanner (53%) yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig aethpwyd atynt yn ystod 2017/18. Fodd bynnag, ers hyn, mae'r lefelau gweithgarwch wedi gostwng oherwydd bod y gwaith cyd-ymateb wedid dod i ben ym mis Medi 2017 a gwaith y Tîm Cymorth Cymunedol wedi dod i ben ym mis Mai 2018.

**Siart 7. Nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori**





| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| GTFf | 139 | 98 | 106 | 97 | 103 |
| Arall ar wahan i GTFf (ddim yn cynnwys prosiectau) | 199 | 202 | 206 | 241 | 198 |
| Ar goll o gartref | 0 | 0 | 4 | 9 | 18 |
| Tim Cynorthwyo Cymunedol - cymorth wedi cwympo | 0 | 0 | 55 | 384 | 120 |
| Dull mynediad | 0 | 0 | 0 | 0 | 17 |
| Digwyddiad meddygol - cyd-ymatebwr | 0 | 0 | 56 | 86 | 0 |

4.3 Ers 2014/15, mae nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd wedi bod yn gostwng yn raddol, er bod 2018/19 wedi gweld mymryn o gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.


4.4 Mae'r patrwm o fynychu digwyddiadau gwasanaeth arbennig sydd ddim yn wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn adlewyrchu gwaith y Gwasanaeth mewn mentrau ar y cyd gyda gwasanaethau brys eraill.

**Siart 8. Nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig (mewn grwpiau)**




4.5 Mewn oddeutu 40% o'r gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a fynychwyd yn 2018/19 roedd rhaid rhyddhau neu dynnu pobl allan o gerbyd.

**Siart 9. Nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm GTFf | 140 | 103 | 107 | 99 | 103 | 103 |
| GTFf yn cynnwys rhyddhau o'r car | 15 | 11 | 13 | 13 | 10 | 12 |
| GTFf yn cynnwys torri allan o'r car | 45 | 23 | 27 | 24 | 31 | 25 |
| GTFf dim angen torri allan/rhyddhau | 80 | 69 | 67 | 62 | 62 | 66 |


**5.0 Monitro ar gyfer Amcan Gwella a Llesiant A:** *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os ydynt yn digwydd.*

5.1 Mae bron hanner yr holl brif danau yng Ngogledd Cymru yn digwydd yn y cartref a dyma lle mae pobl yn fwyaf tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân. Felly, mae hyn yn parhau i fod yn amcan gwella a llesiant cyntaf yr Awdurdod fel y nodir yn y Cynllun Cyfunol ar gyfer Gwella a Llesiant 2018/19. Bydd y gwaith o fonitro hyn yn parhau'n rhan o'r adroddiadau rheolaidd i'r Awdurdod a'r uwch swyddogion.

5.2 Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2018/19, cafwyd gostyngiad yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi o gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18 (190 i 157) – mae hyn hefyd 22% yn is nag yn yr un cyfnod yn 2014/15 ac yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

5.3 Mae niferoedd y tanau bwriadol mewn cartrefi hefyd wedi gostwng dros yr un cyfnod yn 2018/19 o gymharu ag yn 2017/18, o 21 o danau i 11 o danau. Mae'r ffigwr hwn hefyd yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

**Siart 10. Nifer y tanau mewn cartrefi yn ôl cymhelliad**





| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Damweiniol | 202 | 194 | 215 | 190 | 157 | 200 |
| Bwriadol | 20 | 21 | 17 | 21 | 11 | 20 |

5.4 *Oddi ar Ebrill 2009, mae anafusion nad ydynt yn farwolaethau yn cael eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:*

- *aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn rhai difrifol;*
- *aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn rhai bach;*
- *rhoddwyd cymorth cyntaf yn y fan a'r lle;*
- *argymhellwyd archwiliad rhagofalus – dyma pryd mae unigolyn yn cael ei anfon i'r ysbyty neu'n cael ei gynghori i weld meddyg rhag ofn, ond nad oes unrhyw anaf neu drallod*

**Siart 11. Nifer y marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19* |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad rhagofalus yn unig | 24 | 31 | 29 | 20 | 5 |
| Cymorth cyntaf | 25 | 18 | 16 | 10 | 11 |
| Anaf - bychan | 17 | 28 | 12 | 23 | 8 |
| Anaf - difrifol | 0 | 2 | 4 | 2 | 0 |
| Marwolaeth | 0 | 0 | 3 | 1 | 2 |

* Oherwydd newid yn y system gorchymyn a rheoli yn 2017/18, mae ffigyrau 2018/19 yn dal yn destun gwaith sicrhau ansawdd ac maent yn agored i newid.

5.5 Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn 2018/19, cafwyd 2 farwolaeth mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru, o gymharu ag 1 yn yr un cyfnod yn 2017/18.

5.6 Yn ystod yr un cyfnod yn 2018/19, ni chafwyd unrhyw anafiadau difrifol o gymharu â 2 yn 2017/18. Cofnodwyd bod 8 o bobl wedi cael anafiadau bach, o gymharu â 23 yn 2017/18.

5.7 Dros yr un cyfnod, mae nifer y bobl a gafodd gymorth cyntaf yn y fan a'r lle 1 yn fwy o gymharu ag yn 2017/18, tra bo nifer y bobl a gafodd archwiliad rhagofalus neu gael eu cynghori i weld meddyg rhag ofn wedi gostwng o 20 yn 2017/18 i 5 yn 2018/19.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn dod o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau. Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b)Trychinebau mawr;<br>c)Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch)Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllaw cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau Diangen - Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau Diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau Diangen – Larymau Tân Awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |